YMGYRCH TREFTADAETH CYMRU
OPERATION HERITAGE CYMRU

Cadw

# BI-ANNUAL NEWSLETTER

RHIFYN HAF 2025



Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... 3

**Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Treftadaeth** .......... 4

**Gwirfoddolwr Cefnogi'r Heddlu cyntaf Cymru i arbenigo mewn Troseddau Treftadaeth** .......... 5

**Wythnos Genedlaethol Gwirfoddolwyr (2-8 Mehefin 2025)** .......... 6

- **Cyfweliad gyda gwirfoddolwr staff yr heddlu Kate Churchill** .......... 6

**Cadetiaid Heddlu Dyfed Powys yn gweithio gyda Pharc Cenedlaethol Sir Benfro** 6

**Heddlu Gogledd Cymru'n cefnogi digwyddiad National Churches Trust** .......... 7

**Heddlu De Cymru'n gweithio gyda Cadw ar ôl i weddillion dynol gael eu darganfod** .......... 8

**Tîm Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gwent yn cael profiad o gloddiad archeolegol** 8

**Cynlluniau Gwarchod Treftadaeth** .......... 9

**Cadw'n darparu hyfforddiant a sesiynau codi ymwybyddiaeth i heddluoedd Cymru** .......... 10

**Defnyddio technoleg fodern i warchod y gorffennol** .......... 11

**Dyn o Aberdaugleddau'n euog o droseddau treftadaeth** .......... 12

# Cyflwyniad

Lansiwyd Ymgyrch Treftadaeth Cymru yn 2022 fel menter i ymdrin â throseddau treftadaeth yng Nghymru.

Hwn yw'r ymgyrch gyntaf o'i fath yn y DU, a'i nod yw codi ymwybyddiaeth ac atal troseddau treftadaeth ledled Cymru. Mae pedwar heddlu Cymru yn gweithio gyda'i gilydd mewn cydweithrediad â Cadw, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parciau Cenedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, ymddiriedolaethau archeolegol a nifer cynyddol o randdeiliaid eraill a grwpiau gwirfoddolwyr ledled y sector.

Pan gafodd ei lansio, dywedodd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys, Dr Richard Lewis:

***"Ein treftadaeth sy'n gyfrifol am bwy ydym ni, felly mae'n hollbwysig ein bod ni'n gwarchod y tirnodau a'r tirweddau hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."***

***"Efallai bod y troseddau hyn yn ymddangos yn fân i'r sawl sy'n rhan ohonynt, ond dydyn nhw ddim. Mae unrhyw beth sy'n cael ei gymryd neu ei ddifrodi pan mae troseddau treftadaeth yn cael eu cyflawni'n anadnewyddadwy. Felly unwaith maen nhw wedi mynd, maen nhw wedi mynd am byth."***

***"Fel heddluoedd, yr ydym yn dangos ein hymrwymiad i'r mater hwn, felly yr ydym yn gobeithio bydd y cyhoedd yn ein cefnogi drwy fod yn llygaid a chlustiau inni, ac yn adrodd amdano pan maen nhw'n gweld pobl yn cyflawni troseddau treftadaeth."***

Mae'r teimlad hwnnw'n parhau.

Yn 2024, cymerodd Arolygydd Christine James o Heddlu Gwent yr awenau fel arweinydd portffolio Ymgyrch Treftadaeth Cymru, yn dilyn ymddeoliad Arolygydd Ruben Palin o Heddlu Dyfed-Powys.

Ers cymryd yr awenau, mae Arolygydd James wedi bod yn cynrychioli pedwar heddlu Cymru ar y Gweithgor Troseddau Treftadaeth Cenedlaethol ac yn cyd-gysylltu cyfranogiad pob un o heddluoedd Cymru mewn gweithgareddau, gan gynnwys digwyddiadau'r Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Treftadaeth gyntaf.

O fewn Gwent mae Arolygydd James wedi creu swydd Gwirfoddolwr Cefnogi'r Heddlu sy'n gweithio'n benodol yn y maes troseddau treftadaeth yng Nghymru, rhywbeth y mae hi'n gobeithio y bydd heddluoedd eraill Cymru'n ei wneud hefyd.

Mae Arolygydd James wedi croesawu'r defnydd o dechnoleg ac arloesedd, gan fuddsoddi mewn cyfarpar drôn gyda chamera thermol newydd a chyfarpar delweddu thermol llaw blaengar. Mae'r cyfarpar yma'n cael ei ddefnyddio gan swyddogion yn awr i helpu i ymdrin â phroblemau troseddau treftadaeth, gan gynnwys canfod metel yn anghyfreithlon.

Nawr, gyda'r bwriad o wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r gweithgareddau Ymgyrch Treftadaeth Cymru sy'n digwydd yn rheolaidd ledled Cymru, ac i ddwyn sylw pellach atyn nhw, mae Arolygydd James yn falch iawn i gyflwyno cylchlythyr chwemisol Ymgyrch Treftadaeth Cymru!

# Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Treftadaeth

Rhwng 18 a 24 Tachwedd 2024 cymerodd pedwar heddlu Cymru ran yn Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Treftadaeth, ynghyd â phartneriaid. Roedd hwn yn gyfle gwych i swyddogion weithio ochr yn ochr â gwahanol randdeiliaid o'r sector treftadaeth, i helpu i godi ymwybyddiaeth o droseddau treftadaeth.

Cynhaliwyd llawer o weithgareddau ledled Cymru gyfan gan gynnwys sesiynau ymwybyddiaeth gan Cadw i gadetiaid yr heddlu. Yn ystod y sesiynau hyn, cafodd cadetiaid eu hannog i ystyried effeithiau troseddau treftadaeth ar eu cymunedau nhw eu hunain a pham fod adnabod a riportio troseddau'n gynnar mor bwysig.



*Sesiwn ymwybyddiaeth cadetiaid Cadw*

Bu’r heddlu ar batrôl mewn llawer o safleoedd anghysbell ac agored i drosedd ledled Cymru er gwaethaf y tywydd oer.




*Patrôl ar safle heneb gofrestredig anghysbell*

Cynhaliwyd nifer o sesiynau ymwybyddiaeth mewn safleoedd twristiaeth hanesyddol hefyd, gyda'r nod o ymgysylltu ag ymwelwyr.

Roedd hwn yn gyfle gwych i esbonio amcanion Ymgyrch Treftadaeth Cymru ac i annog pobl i riportio.







*Digwyddiad ymgysylltu Abaty Tyndyrn*

## Gwirfoddolwr Cefnogi'r Heddlu cyntaf Cymru i arbenigo mewn Troseddau Treftadaeth

Un o asiantaethau partner Ymgyrch Treftadaeth Cymru awgrymodd y dylid cael Gwirfoddolwr Cefnogi'r Heddlu penodol ar gyfer troseddau treftadaeth!

Gan ein bod yn argyhoeddedig y byddai hyn o fantais, crëwyd swydd ac yn dilyn proses recriwtio, roedd Heddlu Gwent yn falch i allu penodi'r ymgeisydd llwyddiannus, Kate Churchill.

Mae Kate yn archeolegydd proffesiynol yn gweithio yn y sector treftadaeth, ac mae ganddi doreth o wybodaeth a phrofiad. Ers iddi gael ei phenodi, mae Kate wedi bod yn rhan o nifer o weithgareddau Ymgyrch Treftadaeth Cymru, gan gynnwys bod yn bresennol mewn digwyddiadau, cynnal sesiynau ymwybyddiaeth, a hwyluso profiadau dysgu gwerthfawr i swyddogion troseddau treftadaeth arbenigol.

Mae Kate yn gwirfoddoli ochr yn ochr â'r Tîm Troseddau Cefn Gwlad sy'n arwain gwaith troseddau treftadaeth yn Heddlu Gwent.




*Gwirfoddolwr Kate Churchill*

# Wythnos Genedlaethol Gwirfoddolwyr (2-8 Mehefin 2025)

Ymunodd heddluoedd Cymru â miloedd o elusennau a sefydliadau i ddathlu'r cyfraniad mae gwirfoddolwyr yn ei wneud ledled y Deyrnas Unedig.

Yn ystod yr wythnos tynnwyd sylw at nifer o swyddi gwirfoddolwyr yn y maes plismona, gan gynnwys y Gwirfoddolwr Cefnogi'r Heddlu newydd sy'n gweithio'n benodol yn y maes troseddau treftadaeth.

## Cyfweliad gyda gwirfoddolwr staff yr heddlu Kate Churchill

**Beth wnaeth eich ysbrydoli chi i ddechrau gwirfoddoli?**

Fel archeolegydd proffesiynol, rwyf yn gweld ac yn clywed am ddigwyddiadau'n ymwneud â throseddau treftadaeth yn gyson, ac yn y gorffennol roeddwn i'n teimlo nad oeddwn i'n gallu gwneud unrhyw beth ynghylch y broblem. Fel y Gwirfoddolwr Cefnogi'r Heddlu cyfrifol am droseddau treftadaeth, rwyf yn gallu rhybuddio'r Tîm Troseddau Cefn Gwlad am unrhyw ddigwyddiadau cyfredol a thrafod ffyrdd i ymdrin â nhw yn y dyfodol. Gallaf helpu i godi ymwybyddiaeth pobl o droseddau treftadaeth hefyd a pha mor bwysig yw'r gorffennol i'n cymunedau ni. Rwy'n teimlo fy mod yn gwneud gwahaniaeth yn awr.

**Allwch chi ddweud ychydig wrthym ni am eich cefndir a sut mae'n berthnasol i'ch gwaith gwirfoddoli?**

Rwyf wedi bod yn archeolegydd masnachol ers 21 mlynedd ac rwy'n rhedeg busnes o'r enw Churchill Archaeology. Mae'r rhan fwyaf o fy mhrosiectau yn ne ddwyrain Cymru. Mae'r profiad a'r arbenigedd yma'n fy ngalluogi i gynorthwyo'r Tîm Troseddau Cefn Gwlad gydag unrhyw agwedd ar dreftadaeth ac i asesu arwyddocâd heneb ac unrhyw ddifrod a achosir iddi.

**Beth yw eich profiad mwyaf cofiadwy yn gwirfoddoli yma neu beth ydych chi'n fwyaf balch ohono?**

Dangos cloddiad i'r Tîm Troseddau Cefn Gwlad a oedd yn ganlyniad i ddigwyddiad o drosedd treftadaeth a gafodd ei ddatrys yn ddigyffro.

**Pa sgiliau ydych chi wedi eu hennill trwy wirfoddoli?**

Fel arfer, rwy'n gweithio ar fy mhen fy hun, felly mae wedi bod yn wych bod yn rhan o dîm a chael eu cefnogaeth nhw os oes angen. Mae wedi gwella fy nealltwriaeth o droseddau treftadaeth hefyd.

**Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i rywun sy'n ystyried gwirfoddoli?**

Rwyf wir wedi mwynhau'r profiad ac rwy'n teimlo'n rhan o'r tîm. Mae pawb wedi bod mor groesawgar a pharod i helpu.

# Cadetiaid Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio gyda Pharc Cenedlaethol Sir Benfro

Trefnwyd menter ardderchog rhwng Parc Cenedlaethol Sir Benfro a Heddlu Dyfed-Powys, lle bu cadetiaid yr heddlu'n helpu gyda gwaith adfer treftadaeth.

Yn ystod diwrnod difyr iawn, dysgodd y cadetiaid sut gallai troseddau treftadaeth sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel cynnau tanau a graffiti effeithio ar asedau treftadaeth. Cawsant ddysgu sut mae mentrau fel cynlluniau Gwarchod Treftadaeth wedi cael eu cyflwyno er mwyn annog pobl i beidio ag ymddwyn fel hyn ac i annog y cyhoedd i riportio ymddygiad o'r fath.

Cafodd y cadetiaid gyfle i gyfrannu'n uniongyrchol at waith adfer go iawn i helpu i ddiogelu asedau hanesyddol yn y parc cenedlaethol.








## Heddlu Gogledd Cymru'n cefnogi digwyddiad National Churches Trust

Roedd cynrychiolydd troseddau treftadaeth o Dîm Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru yn falch o dderbyn gwahoddiad i siarad am y fenter Ymgyrch Treftadaeth Cymru mewn digwyddiad National Churches Trust yn Llandudno.

Roedd y digwyddiad yn agored i amrywiaeth o bobl gan gynnwys clerigwyr, gwirfoddolwyr eglwysi, yr esgobaeth a gweithwyr proffesiynol yn y sector.

Nod y cyflwyniad oedd codi ymwybyddiaeth o Ymgyrch Treftadaeth Cymru ymysg pobl sy'n gysylltiedig ag eglwysi a'r dull cydweithredol o weithio y mae ei angen i ymdrin â throseddau treftadaeth.

Roedd y digwyddiad yn gyfle da i'r heddlu glywed yn uniongyrchol gan bobl yn y sector am rai o'r problemau troseddau treftadaeth cyfredol sy'n effeithio ar eglwysi.

## Heddlu De Cymru'n gweithio gyda Cadw ar ôl i weddillion dynol gael eu darganfod

Gweithiodd Heddlu De Cymru gyda Cadw ar ôl i weddillion dynol gael eu darganfod ar ymyl Gwersyll Rhufeinig Nash Point, sy'n heneb gofrestredig.

Roedd aelod o'r cyhoedd wedi darganfod y gweddillion ac wedi rhoi gwybod i'r heddlu.

Comisiynwyd Cellmark i adfer y gweddillion dynol a dangosodd dadansoddiadau DNA a dyddio radiocarbon nad oedden nhw'n rhai modern.

Bydd gweddill y gweddillion dynol yn cael eu cloddio gan archeolegwyr wedi'u comisiynu gan Cadw, gan ychwanegu at wybodaeth am yr heneb gynhanesyddol yma a sut roedd yn cael ei defnyddio gan bobl yn y gorffennol.

## Tîm Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gwent yn cael profiad o gloddiad archeolegol

Derbyniodd swyddogion Tîm Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gwent wahoddiad i gloddiad archeolegol yn ardal Sir Fynwy yn ddiweddar.

Rhoddodd yr ymweliad gipolwg i swyddogion ar y ffordd mae cloddiadau cymunedol â chaniatâd yn cael eu cynnal ar safleoedd henebion cofrestredig.

Roedd y swyddogion yn ddiolchgar i gwrdd â llawer o wirfoddolwyr o'r gymuned a gweithwyr treftadaeth proffesiynol ar y safle, a sgwrsio gyda nhw. Roedd yn gyfle ardderchog i glywed eu barn am faterion fel canfod metel yn anghyfreithlon, difrod a chloddio heb ganiatâd.

Dysgodd swyddogion ynglŷn â'r broses ar gyfer cofnodi canfyddiadau, gan gynnwys sut maen nhw'n cael eu cofnodi a'u trafod. Cawsant gyfle i weld rhai arteffactau anhygoel a oedd newydd ddod o'r ddaear hefyd a phrofi'r cyffro mae hyn wedi ei greu ymysg y gwirfoddolwyr.

Mae cynlluniau ar waith yn awr i roi profiad tebyg i gadetiaid yr heddlu yn y dyfodol, a'r gobaith yw y byddan nhw'n cael cymryd rhan mewn cloddiad.








## Cynlluniau Gwarchod Treftadaeth

Mae diddordeb rheolaidd mewn cynlluniau gwarchod treftadaeth yma yng Nghymru, ac mae'r cynllun mwyaf sefydledig yn cael ei redeg gan Archeolegydd Cymunedol Parc Cenedlaethol Sir Benfro, Tomos Jones.

Mae'r Cynllun Gwarchod Treftadaeth rhagorol yma wedi bod yn rhedeg am sawl blwyddyn ac mae'n gweithio'n agos gyda Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid.

Pwrpas y cynllun yw amddiffyn asedau treftadaeth o fewn y parc cenedlaethol. Mae'r cynllun yn helpu i gefnogi nod Ymgyrch Treftadaeth Cymru o godi ymwybyddiaeth o droseddau treftadaeth ac annog preswylwyr a phobl sy'n ymweld â'r ardal i riportio digwyddiadau.

Yn ddiweddar, gwnaeth Parc Cenedlaethol Sir Benfro rywfaint o newidiadau i'w wefan a'i gyfryngau cymdeithasol gan dynnu sylw at y gwaith agos mae'n ei wneud yn rhan o Ymgyrch Treftadaeth Cymru ac mae newydd lansio tudalen Instagram newydd.

Gallwch ddysgu mwy neu gyfrannu at y gwaith trwy gyfrwng y dolenni isod -

Facebook

Instagram

Gwarchod Treftadaeth



*Archeolegydd Cymunedol Parc Cenedlaethol Sir Benfro, Tomos Jones yn hwyluso ymweliad cadetiaid Heddlu Dyfed-Powys*

## Cadw'n darparu hyfforddiant a sesiynau codi ymwybyddiaeth i heddluoedd Cymru

Mae cynrychiolwyr o Cadw wedi bod yn rhoi hyfforddiant a gwybodaeth i swyddogion heddlu yng Nghymru yn ddiweddar.

Ym mis Mai, cynhaliwyd sesiwn o'r fath yng ngorsaf heddlu Casnewydd lle derbyniodd swyddogion o bob rhan o ardal Heddlu Gwent gyflwyniad manwl.

Roedd y swyddogion a oedd yn bresennol yn cynrychioli timau plismona cymdogaeth, uned rheoli ffeiliau erlyniad a'r Tîm Troseddau Cefn Gwlad. Yn ystod y sesiwn dangosodd staff Cadw yr effaith mae digwyddiadau fel tân, graffiti a mathau eraill o ddifrod ffisegol yn gallu eu cael ar asedau hanesyddol bregus.

Roedd y sesiwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y ddeddfwriaeth sydd mewn lle i amddiffyn henebion cofrestredig a'r gefnogaeth sydd ar gael i ymchwiliadau Heddlu, trwy adroddiadau asesu difrod a thystiolaeth tystion arbenigol.

Roedd yn gyfle i swyddogion drafod nifer o astudiaethau achos hefyd a deall y cymhlethdodau posibl yn ystod achosion sy'n ymwneud â gwaith cloddio heb ganiatâd neu ddifrod.

Mae sylwadau wedi bod yn gadarnhaol iawn gan swyddogion Heddlu Gwent a Dyfed-Powys sydd wedi derbyn y sesiynau hyd yn hyn.

Mae mwy o sesiynau'n cael eu trefnu yn awr i gael eu cyflwyno i Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu De Cymru.

Diolch arbennig i Dr Jonathan Berry (Uwch Archwilydd Henebion Cofrestredig ac Archeoleg Cadw) a'i gydweithwyr am ddarparu'r sesiynau.




## Defnyddio technoleg fodern i warchod y gorffennol

Yn ddiweddar mae'r Heddlu yng Nghymru wedi croesawu'r defnydd o dechnoleg arloesol i gefnogi ymgyrchoedd i ymdrin â throseddau treftadaeth.

Mae troseddau fel canfod metel yn anghyfreithlon, sy'n aml yn cael ei alw'n "nighthawking" yn Saesneg, yn digwydd yn y tywyllwch fel arfer ac mewn ardaloedd gwledig anghysbell. Mae hyn yn aml yn gallu arwain at heriau ychwanegol i swyddogion wrth geisio ymdrin â throseddau o'r fath.

Er mwyn goresgyn rhai o'r heriau hyn, mae'r Heddlu'n defnyddio technoleg fodern ar ffurf Systemau Awyr Di-griw, sy'n fwy cyfarwydd i bobl fel dronau.

Mae dronau'r Heddlu'n cynnwys camerâu optegol pwerus a chamerâu delweddu thermol sy'n galluogi swyddogion i chwilio ardaloedd mawr, eang am unrhyw droseddwyr posibl yn gyflym ac yn effeithlon. Gellir ffrydio delweddau'n fyw i'r ystafell gyswllt a rheoli neu hyd yn oed yn uniongyrchol i ddyfeisiau symudol unrhyw swyddogion ar lawr gwlad.

Nid yw golau'n gwneud dim gwahaniaeth i swyddogaeth camera delweddu thermol, ac mae hyn yn golygu eu bod nhw'n gallu gweithredu mewn tywyllwch llwyr neu yng nghanol dydd.

Mae swyddogion yn gallu defnyddio cyfarpar delweddu thermol hirbell hefyd yn awr, y gellir ei ddefnyddio pan na fydd defnyddio drôn yn addas.

Dyma ddwy ddelwedd o Gastell Caerffili, sy'n dangos y gymhariaeth uniongyrchol a mantais amlwg camera delweddu thermol dros gamera optegol yn y nos.








*Yr heddlu'n defnyddio drôn yn ystod ymgyrchoedd nos yn ddiweddar.*

## Dyn o Aberdaugleddau'n euog o droseddau treftadaeth

Yn dilyn ymchwiliad gan Heddlu Dyfed-Powys a Cadw, cafodd dyn ei erlyn yn ddiweddar am adeiladu heb ganiatâd ar safle heneb gofrestredig.

Ym mis Mehefin 2025, cafwyd y diffynnydd yn euog yn Llys y Goron o'r drosedd o waith heb ganiatâd yn effeithio ar heneb gofrestredig.  Roedd y diffynnydd wedi adeiladu patio yn anghyfreithiol ar safle heneb gofrestredig hanesyddol Priordy Pill.

Derbyniodd y diffynnydd ddirwy o £4000 a gorchymyn i dalu gordal dioddefwr o £120.

Dyfarnodd y llys y bydd y diffynnydd yn treulio dau fis yn y ddalfa os nad yw'n talu'r ddirwy.